# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 1

CYNLLUNIO A MABWYSIADU CWRICWLWM

*Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir*

### 10 Cynllunio cwricwlwm

(1) Rhaid i bennaeth ysgol gynllunio cwricwlwm i ddisgyblion yr ysgol.

(2) Rhaid i'r cwricwlwm hwnnw gydymffurfio â'r gofynion yn adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 10 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(a), **Atod.**

**I3** A. 10 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(a)

### 11 Mabwysiadu cwricwlwm

(1) Rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol—

(a) mabwysiadu'r cwricwlwm a gynllunnir o dan adran 10 fel y cwricwlwm i ddisgyblion yr ysgol, a

(b) cyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm mabwysiedig.

(2) Ond ni chaniateir mabwysiadu cwricwlwm o dan yr adran hon oni bai ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion yn adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I5** A. 11 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(a), **Atod.**

**I6** A. 11 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(a)

## 12 Adolygu a diwygio cwricwlwm

(1) Rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol—

(a) cadw'r cwricwlwm mabwysiedig o dan adolygiad, a

(b) sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion yn adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.

(2) Wrth ystyried a yw'r cwricwlwm mabwysiedig yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b), rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu roi sylw i wybodaeth sy'n deillio o unrhyw drefniadau asesu a weithredir ganddynt o dan reoliadau a wneir o dan adran 56.

(3) Rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol ddiwygio'r cwricwlwm mabwysiedig os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b).

(4) Caiff pennaeth a chorff llywodraethu ysgol ddiwygio'r cwricwlwm mabwysiedig hefyd os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny ar unrhyw adeg.

(5) Os yw pennaeth a chorff llywodraethu ysgol yn diwygio'r cwricwlwm mabwysiedig, rhaid iddynt gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm diwygiedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I8** A. 12 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(a), **Atod.**

**I9** A. 12 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(a)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir.